WG35.5.1

Pa beth yw marw, ond enaid cryf yn
tori
Drwy blisgyn teneu daearoldeb,
I chwareu edyn yn anfarwol dlysni
Awyrgylch laswen tragwyddoldeb.

Rhaid colli'r plisgyn er mwyn enill
aden ;
A su yr aden ddeffry'r alaw ;
Ar ol cael beddrod a thragwyddol
wybren
Daw'r gan—aiff hono byth yn
ddistaw.—*Ben Bowen.*

## Er Cof Serchog am

# BEN BOWEN,

*Yr hwn a fu farw Dydd Sul, Awst 16eg,*

**YN 24 MLWYDD OED,**

*Ac a gladdwyd yn Nghladdfa Gyhoeddus Treorci*

*Dydd Iau, Awst 20fed, 1903.*

Ymdawelaf mae dwylo—Duw ei hun,
Danaf ym mhob cyffro ;
Yn nwfn swyn ei fynwes O
Caf lonydd : caf le i huno.
—*Ben Bowen.*

X2053074584

# EMYNAU.

## ABERGELE.

MOR ddedwydd yw y rhai, trwy ffydd
  Sy'n myn'd o blith y byw;
Eu henwau'n perarogli sydd,
  A'u hun, mor dawel yw!

Ar ol eu holl flinderau dwys,
  Gorphwyso maent mewn hedd,
Yn mhell o swn y byd a'i bwys,
  Heb boen, yn llwch y bedd.

Llais un gorthrymydd byth ni ddaw
  I'w deffro i wylaw mwy,
Na phrofedigaeth lem, na chroes—
  Un loes ni theimlant hwy.

---

## TANYCASTELL.

DISGWYL pethau gwych i ddyfod,
  Croes i hyny maent yn d'od;
Meddwl 'fory daw gorfoledd,
  'Fory'r tristwch mwya' erioed;
Meddwl byw, ac eto marw
  Yw'r lleferydd dan fy mron:
Bob yn ronyn, mi ro'f ffarwel—
  Ffarwel glan i'r ddaear hon.

Tragwyddoldeb! mawr yw d'enw,
  Ti mae'n ddiau yw fy lle;
Huriwr un diwrnod ydwyf,
  Fry mae'm cartref yn y ne':
Mae'm diwrnod bron a gorphen,
  Mae fy haul bron myn'd i lawr;
Mae pob awel yn fy chwythu
  Tua'r tragwyddoldeb mawr.

## LAUSANNE.

MAE 'nghyfeillion adre'n myned,
O fy mlaen, o un i un,
Gan fy ngadael yn amddifad,
Fel pererin wrtho'i hun.

Wedi dianc uwch gelynion,
Croesau, a gofidiau fyrdd,
Maent hwy'n awr yn gwisgo'r goron,
Ac yn cario'r palmwydd gwyrdd.

Byddaf yn dych'mygu, weithiau,
Fry eu gwel'd yn Salem lân,
Ac y clywaf, ar rai prydiau,
Adsain odlau per eu cân.

Ond mae'r amser bron a dyfod
Y caf uno gyda hwy,
Yn un peraidd gor diddarfod,
Uwch law ofn ymadael mwy.

---

## ALEXANDER.

O! ANFEIDROL rym y cariad,
Anorchfygol ydyw'r gras;
Digyfnewid yw'r addewid,
Bery byth o hyn i maes;
Hon yw'm hangor ar y cefnfor,
Na chyfnewid meddwl Duw;
Fe addawodd na chawn farw,
Yn nghlwyfau'r Oen y cawn i fyw.

Yn y dyfroedd mawr a'r tonau,
Nid oes neb a ddeil fy mhen
Ond fy anwyl Briod Iesu,
A fu farw ar y pren;
Cyfaill yw yn afon angeu,
Ddeil fy mhen i uwch y don:
Golwg arno wna i mi ganu
Yn yr afon ddofn hon.

## ST. GARMON.

GWEL uwchlaw cymylau amser,
O fy enaid! gwel y tir,
Lle mae'r awel fyth yn dyner,
Lle mae'r wybren fyth yn glir:
Hapus dyrfa!
Sydd yn nofio yn Ei hedd.

Ynddi tardd ffynhonau bywyd,
Trwyddi llif afonydd hedd,
I ddyfrhau ei broydd hyfryd,
Ac i anfarwoli ei gwedd:
Iachawdwriaeth
Ar ei glan anedlir mwy.

Troir awelon glyn marwolaeth
Oll yn hedd tu yma i'r fan,
Try holl ocheneidiau hiraeth
Yn anthemau ar y lan;
Syrth y deigryn
Olaf i'r Iorddonen ddu!

Nid oes yno neb yn wylo,
Yno nid oes neb yn brudd,
Troir yn fêl y wermod yno
Yno rhoir y caeth yn rhydd;
Hapus dyrfa
Sydd a'u trigfa yno mwy.

---

## EBENEZER.

ETO unwaith mi ddyrchafaf
Un ochenaid tua'r nef,
Ac a wylaf ddagrau'n hidyl
Am Ei bresennoldeb Ef;
Pwy a wyr na wrendy clustiau
'R Hwn a greodd ddae'r a nen,
Ac na ddaw fy nymuniadau
Trist, hiraethlawn, oll i ben.

---

*John Davies, Argraffydd, Ystrad.*